Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024

Dyddiad Cyhoeddi: Mawrth 2025



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024. Mae ein crynodeb archwilio'n rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae gan y Cyngor 40 o gynghorwyr sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Llafur 28
- Reform 4
- Y Grŵp Annibynnol 5
- Grŵp Annibynnol Torfaen 3

Gwariodd y Cyngor £235 miliwn ar ddarparu gwasanaethau[1] yn ystod 2023-24[2].

[1] Rydym yn diffinio gwariant ar wasanaethau fel cost gwasanaethau a godir ar y gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad Ariannu Gwariant, namyn costau unrhyw wasanaethau a ariennir o'r Cyfrif Refeniw Tai, gan ychwanegu praeseptau, ardollau a llog ar ddyledion.

[2] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2023-24

**Ffeithiau allweddol**

O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2024, roedd gan y Cyngor £41 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy[3]. Mae hyn yn cyfateb i 17% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau[4].

Mae 5% o ardaloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rhai yr ystyrir eu bod ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru, sef y nawfed isaf o'r 22 o gynghorau unedol yng Nghymru[5].

Rhagamcanir y bydd poblogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn cynyddu 4% rhwng 2024 a 2043 o 94,500 i 98,200, gan gynnwys gostyngiad a ragwelir o 3% yn nifer y plant, dim newid yn nifer y boblogaeth o oedran gweithio a chynnydd o 21% nifer y bobl 65 oed a throsodd[6].

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Fe wnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2023-24 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio'r Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio pa un a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[3] Rydym yn diffinio cronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy fel cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben wedi'i ddiogelu gan y gyfraith. Mae hyn yn golygu cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf na grantiau cyfalaf anghymwysedig.

[4] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2023-24

[5] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: StatsCymru

[6] Ffynhonnell: StatsCymru, Amcanestyniadau o'r Boblogaeth

# Yr hyn a ganfuom

## Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2023-24

Bob blwyddyn, rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.



**I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith cyrff rheoleiddio megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu pa un a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.**

### Ar gyfer 2023-24:

- cyflwynwyd y datganiadau drafft i'w harchwilio cyn y terfyn amser, sef 30 Mehefin 2024, a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn dda ar y cyfan, ond fe wnaethom hysbysu ynghylch rhai materion gyda chynhyrchu, amseroldeb ac ansawdd rhai papurau gwaith a pheth tystiolaeth archwilio, ac fe wnaethom adnabod gwendidau yn y broses werthuso ac addasiadau cyfrifyddu cysylltiedig ar gyfer Eiddo, Offer a Chyfarpar.
- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod bod datganiadau ariannol yr Awdurdod yn gywir a theg ar 28 Tachwedd 2024, gan gydymffurfio â'r terfyn amser y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, sef 30 Tachwedd 2024.
- cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac â'n gwybodaeth ni am yr Awdurdod.
- fe wnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a gododd o'n gwaith archwilio, gyda'r rheiny'n cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ym mis Tachwedd 2024.
- yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd am ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau. Nid yw ein gwaith hyd yma wedi canfod unrhyw faterion arwyddocaol.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2023-24 wedi cael ei gwblhau.

## Adolygiad sicrwydd ac asesu risg

Fe wnaethom adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi eu rhoi ar waith i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio ei adnoddau. Fe gynhyrchom ni'r adroddiadau canlynol o'n gwaith sicrwydd ac asesu risg:

- Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – fe wnaethom fwrw golwg ar y data ynghylch safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau a ddarperir ar gyfer aelodau ac uwch swyddogion, a sut y defnyddir yr wybodaeth hon. Canfuom fod gwybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer uwch arweinwyr i'w galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau gweithgareddau'r Cyngor yn gyfyngedig, gan gyfyngu ar eu gallu i ddeall effaith ei wasanaethau a'i bolisïau.

## Gofal heb ei drefnu

Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: er gwaethaf ffocws eglur ar wella llif cleifion yn y rhanbarth, mae nifer sylweddol o gleifion sy'n ffit yn feddygol yn meddiannu gwelyau mewn ysbytai. Mae hyn yn parhau i gael effeithiau dilynol difrifol ar lwybrau gofal eraill y GIG ac yn creu risgiau i lesiant corfforol a meddyliol cleifion. Mae angen asesiadau mwy amserol o gleifion, dull o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty sy'n llai amharod i dderbyn risg a chymhwyso polisi ar ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd mwy cyson. Mae heriau o ran y gweithlu a systemau TG yn dal i fod yn rhwystrau allweddol y bydd angen i bartneriaid ganolbwyntio arnynt i sicrhau gwerth o'r buddsoddiadau y maent wedi eu gwneud ac i gyflawni'r gwelliannau y maent yn cydnabod bod eu hangen.

## Strategaeth Ddigidol

Yn ystod 2022-23, fe wnaethom archwilio dull strategol y Cyngor o ymdrin â thechnoleg ddigidol, ac yn benodol i ba raddau mae hwn wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau'r Cyngor. Canfuom fod y Cyngor wedi datblygu strategaeth ddigidol ond nad yw wedi cael ei chostio'n llawn ac y ceir gwendidau mewn trefniadau i fonitro ac adolygu'r modd y caiff ei chyflawni.

## Cynaliadwyedd Ariannol

Yn ystod 2024, fe wnaethom adolygu cynaliadwyedd ariannol y Cyngor gan gynnwys ffocws ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau mewn cyllid a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. Canfuom fod gan y Cyngor drefniadau priodol i ategu ei gynaliadwyedd ariannol, a'i fod yn canolbwyntio ar ddatblygu a chymryd camau gweithredu a fydd yn creu arbedion digonol i fynd i'r afael â'r bwlch a adnabuwyd yn ei gyllideb mewn modd amserol a chynaliadwy.

## Trefniadau Gwrth-dwyll

Yn ystod 2024, fe wnaethom adolygu trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Canfuom fod ffocws y Cyngor ar drefniadau llywodraethu a rheolaethau cryf yn darparu sylfaen gref ar gyfer atal a chanfod twyll, ond bod cyfle i gryfhau rhai agweddau ar ei drefniadau.

## Adroddiadau a chynhyrchion cenedlaethol a gyhoeddwyd yn 2024

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Fe gyhoeddom ni'r adroddiadau canlynol yn 2024 a allai fod yn ddefnyddiol i'r Cyngor ac sydd i'w cael ar ein gwefan.

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol | Rhagfyr 2024 |
| Mae'r diweddariad i'r Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol bellach yn cynnwys data o gyfrifon drafft 2023-24 | Rhagfyr 2024 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2022-23 | Hydref 2024 |
| Teithio llesol (adroddiad ac offeryn data) | Medi 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub | Medi 2024 |
| Tai fforddiadwy | Medi 2024 |
| Digidol o Fwriad? - Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draws cynghorau yng Nghymru? | Awst 2024 |
| Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiad yng nghynghorau Cymru | Gorffennaf 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol | Ebrill 2024 |
| Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru | Mawrth 2024 |
| O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus | Chwefror 2024 |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy – Adnewyddu safleoedd tir llwyd | Ionawr 2024 |

## Gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2024-25

Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r modd y mae'n defnyddio ei adnoddau.

Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2024-25 yn cynnwys:

- Sicrwydd ac asesu risg
- Trefniadau comisiynu
- Gwasanaethau hamdden

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe'i penodwyd gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â'r gofynion sy'n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.